# Hybu Bwyta ac Yfed yn Iach mewn Ysgolion a Gynhelir

## Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau ddrafft: rhif 298/2025
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025
Yn disodli dogfen ganllawiau: 146/2014

# Hybu Bwyta ac Yfed yn Iach mewn Ysgolion a Gynhelir

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pawb sy'n ymwneud â darparu bwyd a diodydd ysgol mewn ysgolion a gynhelir. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir), y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion, megis penaethiaid ac athrawon, rhieni/gofalwyr, dysgwyr, darparwyr arlwyo preifat/mewnol a rhanddeiliaid eraill, e.e. proffesiynolion iechyd, dietegwyr, cydgysylltwyr ysgolion iach, ac ati. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion) ar gydymffurfio â'r darpariaethau ym Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r rheoliadau a wnaed o dan y Mesur hwnnw. |
| **Camau i'w cymryd** | Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir roi sylw i'r canllawiau statudol hyn. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **29 Gorffennaf 2025** ar yr hwyraf. Gellir cwblhau ein ffurflen ar-lein neu e-bostio eich ymateb at y cyfeiriad canlynol:<br><br>Ffurflen ar-lein<br><br>E-bost: bwydmewnysgolion@llyw.cymru<br><br>Tim Bwyd Mewn Ysgolion<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau<br><br>**Manylion cyswllt**<br><br>Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: |

Tim Bwyd Mewn Ysgolion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: bwydmewnysgolion@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

| | |
|---|---|
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/bwytan-iach-mewn-ysgolion |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 |

© Hawlfraint y Goron 20XX ISBN digidol XXXX WGXXXXX

# Cynnwys

**Cyflwyniad a chefndir** 4

**Rôl cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol ac Estyn** 9

**Mae'r Mesur** 12

Hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion mewn ysgolion a gynhelir (Adran 1) 12

Adroddiadau Llywodraethwyr (Adran 2) 15

Swyddogaethau'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Estyn (Adran 3) 16

Dŵr Yfed mewn ysgolion (Adran 5) 17

Hybu prydau ysgol mewn ysgolion a gynhelir (Adran 6) 19

Diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol neu laeth am ddim (adran 7) 21

Atodiad 1 – Gweithgareddau enghreifftiol y gallai awdurdod lleol a/neu gorff llywodraethu eu hannog neu eu cefnogi i annog dysgwyr a rhieni i fanteisio ar brydau ysgol (nid ydynt yn nhrefn blaenoriaeth) 25

# Cyflwyniad a chefndir

## Cyflwyniad a Statws Cefndir

2.1 Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adrannau 1, 5 a 7 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ('y Mesur'), sy'n darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir eu hystyried. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, y dylai fod ganddynt resymau clir y gellir eu cyfiawnhau dros wneud hynny. Mae'r canllawiau statudol hyn yn disodli canllawiau 2014.

2.2 Mae'r mesur hwn hefyd yn diwygio darnau eraill o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Addysg 2002[1] a Deddf Addysg 2005[2]. Nodir y diwygiadau hyn yn yr adrannau perthnasol o'r canllawiau hyn.

## Ysgolion a Gynhelir

2.3 Mae ysgol a gynhelir yn ysgol sy'n cael ei hariannu'n llwyr neu i raddau helaeth gan awdurdod lleol. Dylid gwahaniaethu rhwng ysgolion a gynhelir[3] ac ysgolion annibynnol. At ddiben y Mesur, ysgolion a gynhelir yw'r categorïau canlynol o ysgolion yng Nghymru:

- Ysgolion bro
- Ysgolion gwirfoddol a reolir
- Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

[1] Deddf Addysg 2002 (legislation.gov.uk)
[2] Deddf Addysg 2005 (legislation.gov.uk)
[3] Ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol | Cyfraith Cymru (llyw.cymru)

- Ysgolion sefydledig
- Ysgolion arbennig cymunedol
- Ysgolion meithrin a gynhelir
- Unedau Cyfeirio Disgyblion.

**Cefndir**

1.4 Gall y bwyd a'r diodydd a ddarperir mewn ysgolion wneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dilyn deiet cytbwys iach a'u hannog i ddatblygu arferion bwyta da, yn ogystal â'u galluogi i ddysgu'n llwyddiannus. Bu pryder ers cryn amser ynghylch nifer y plant sydd dros bwysau neu sy'n ordew a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar iechyd a llesiant. Deiet gwael yw un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Mae ansicrwydd bwyd hefyd yn destun pryder cynyddol. Gall bwyd a diod mewn ysgolion ddarparu cryn dipyn o egni a maeth i ddysgwyr ac, i rai, cinio ysgol fydd eu prif bryd o fwyd yn ystod y dydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, pasiwyd y Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2009 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Hydref 2009. Mae deddfwriaeth a wnaed o dan y Mesur yn rheoleiddio bwyta ac yfed yn iach er mwyn sicrhau bod bwyd a diod mewn ysgolion yn darparu maethynnau hanfodol, ac y cyfyngir ar fraster, siwgr a halen (gweler y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Canllawiau drafft i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu).

**Sut mae egwyddorion datblygu cynaliadwy yn gymwys mewn perthynas â hybu bwyta ac yfed yn iach**

1.5 Wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 1 o'r Mesur i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried y canllawiau hyn ar sut mae egwyddorion datblygu cynaliadwy yn gymwys.

1.6 Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

1.7 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gwneud penderfyniadau a fydd yn sicrhau manteision yn yr hirdymor yn ogystal â'r byrdymor, ac a fydd yn atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r pwyslais ar fwyta'n iach mewn ysgolion yn enghraifft o ddull cynaliadwy o weithredu, drwy helpu i leihau problemau iechyd megis gordewdra yn y dyfodol.

1.8 Gan fod dewisiadau bwyd yn aml yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd, mae ymyrraeth lwyddiannus yn hanfodol i ddiogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cefnogi penderfyniadau iach yn ifanc arwain at ganlyniadau gwell yn yr hirdymor. Mae annog plant i fwyta deiet iach yn debygol o wella eu hansawdd bywyd.

1.9 Gall meithrin dealltwriaeth o fwyd yn ifanc hefyd gynnig cyfleoedd i ddysgu am amrywiaeth o faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd cyfrifoldeb personol am iechyd a'r materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a bwyta bwyd yn lleol ac yn rhyngwladol, yn ogystal ag effaith cynhyrchu bwyd ar newid hinsawdd.

1.10 Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygu cynaliadwy yn https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru.

**Y Mesur**

1.11 Ymhlith materion eraill, mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gymryd camau i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith dysgwyr cofrestredig ysgolion a gynhelir. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ddarparu gwybodaeth am y camau gweithredu hyn yn eu hadroddiad blynyddol ac mae'n ofynnol i Estyn gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar y camau a gymerwyd gan ysgolion. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru reoleiddio'r bwyd a'r diodydd a ddarperir i ddisgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir ac i bobl eraill ar safleoedd ysgolion.

| Adran | Darpariaeth y Mesur | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| Adran 1 | Dyletswydd ar awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir i gymryd camau i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion cofrestredig. | 6 |
| Adran 2 | Dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol am y camau a gymerwyd i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion yr ysgol. | 9 |
| Adran 3 | Dyletswydd ar y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i roi gwybod<br>i Weinidogion Cymru am y camau a gymerir mewn ysgolion a gynhelir i hybu bwyta ac yfed yn iach. | 15 |
| Adran 4 | Yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am y bwyd a'r diodydd a ddarperir ar safleoedd ysgolion a gynhelir a'r bwyd a'r diodydd a ddarperir gan awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu mewn mannau eraill ar wahân i safleoedd ysgolion i ddisgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir.<br>Gwnaed y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion<br>(Gwnaed Rheoliadau (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 20XX o dan y pŵer hwn (gweler Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) – Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu). Gwnaed y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion<br>Gwnaed Rheoliadau (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 o dan y pŵer hwn hefyd, ac maent yn parhau i fod ar waith ar gyfer ysgolion uwchradd). | Canllawiau Ar Wahân |
| Adran 5 | Dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau bod dŵr yfed ar gael, yn ddi-dâl ar safle pob ysgol a gynhelir. | 10 |
| Adran 6 | Dyletswydd ar awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, sy'n darparu prydau ysgol neu laeth o dan adran 512 o Ddeddf Addysg 1996, i annog disgyblion i fanteisio ar y prydau neu'r llaeth sydd ar gael, ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim[4] a llaeth ysgol am ddim o dan adran 512ZB o'r Ddeddf honno yn eu cael. | 11 |
| Adran 7 | Dyletswydd ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad oes modd i unrhyw berson ac eithrio person a awdurdodir o dan y ddeddfwriaeth, wybod bod disgybl yn cael cinio ysgol neu laeth ysgol am ddim.<br><br>Dyletswydd ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw athrawon/cyflogeion/gwirfoddolwyr yn yr ysgol na chyflogeion yr awdurdod lleol yn datgelu, ac eithrio i berson a awdurdodwyd o dan y ddeddfwriaeth, bod disgybl yn cael cinio ysgol neu laeth ysgol am ddim. | 13 |

[4] Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) (Cymru) 2013 yn diffinio hyn fel "bwyd a ddarperir i'w fwyta gan ddisgyblion neu bersonau eraill fel eu pryd bwyd canol dydd ar ddiwrnod ysgol, p'un a yw hynny'n golygu pryd gosod neu ddetholiad o eitemau i'w dewis ganddynt'

# Rôl cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol ac Estyn

**Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn canolbwyntio ar rôl corff llywodraethu'r ysgol, yr awdurdod lleol ac Estyn. Mae'n esbonio'r gofynion arnynt o dan adrannau 1, 2, 3, 5, 6, 7 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, gan gynnig enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch y dylai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ymgymryd â nhw wrth gyflawni eu dyletswyddau, gan weithredu o fewn ffiniau eu pwerau.**

### Cymorth i'r ysgol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol

2.1 Mae gwasanaethau arlwyo ac ymarferwyr Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Cymru[5] yn rhoi cyngor i ysgolion mewn perthynas â rhoi gweithgareddau i hybu bwyta ac yfed yn iach ar waith. Mae awdurdodau lleol hefyd yn ymgysylltu ag asiantaethau partner eraill, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwasanaethau deietegol iechyd y cyhoedd, er mwyn hwyluso cymorth pellach i ysgolion.

2.2 Bydd adrannau gwahanol yn yr awdurdod lleol yn rhan o'r gwaith o ddylunio ceginau ac ystafelloedd bwyta, drwy ymgynghori â gwasanaethau arlwyo, ysgolion a phlant a theuluoedd. Gall gwasanaethau cynnal a chadw ysgolion gynnig cymorth mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i 'sicrhau bod dŵr yfed ar gael, yn ddi-dâl ar safle pob ysgol a gynhelir.' (gweler tudalen 13).

### Dyletswydd i gydymffurfio â'r rheoliadau

2.3 Pan fydd yr awdurdod lleol yn darparu bwyd a diod, boed hynny drwy staff arlwyo a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu drwy gytundeb neu drefniant gydag arlwywr dan gontract, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) (20XX) (gweler y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Canllawiau drafft i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu).

2.4 Pan fydd y corff llywodraethu yn darparu bwyd a diod, boed hynny drwy staff arlwyo a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol neu drwy gytundeb neu drefniant gydag arlwywr dan gontract, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) (20XX) (gweler pennod 2).

2.5 Gallai awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu neu gyrff arlwyo annibynnol gydweithio i sicrhau bod pob un ohonynt yn cyflawni eu dyletswyddau fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

[5] Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

**Rôl Estyn**

Beth y gall llywodraethwyr ddisgwyl i Estyn ei ystyried wrth gynnal arolygiad?

2.6 Yn ystod arolygiad craidd, bydd Estyn yn gwerthuso i ba raddau:

- Y mae'r corff llywodraethu yn sicrhau bod y bwyd a'r diodydd a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.
- Y mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach.
- Y mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach.

2.7 Bydd Estyn yn gwerthuso gwaith yr ysgol mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau yn ystod arolygiad, fel y nodir isod.

Holiaduron cyn arolygu

2.8 Ar ôl i Estyn roi gwybod i ysgol am ei bwriad i'w harolygu, bydd yn gwahodd y llywodraethwyr, y disgyblion, y rhieni a'r staff i gwblhau holiadur cyn arolygu. Mae'r holiadur i lywodraethwyr a'r holiadur i ddysgwyr yn cynnwys cwestiynau penodol yn ymwneud ag iechyd. Gofynnir i'r llywodraethwyr roi enghreifftiau o'r ffordd y maent wedi herio a chefnogi arweinwyr yr ysgol mewn perthynas â llesiant dysgwyr, gan gynnwys y mesur bwyta ac yfed yn iach.

Cyfarfod rhieni/gofalwyr

2.9 Bydd Estyn yn gwahodd pob rhiant a gofalwr i gyfarfod rhieni a gofalwyr lle byddant yn cael y cyfle i rannu eu barn am gryfderau'r ysgol ac unrhyw wendidau posibl. Gofynnir iddynt roi adborth ynghylch i ba raddau y mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau corfforol. Bydd Estyn yn mynd ar drywydd unrhyw gryfderau neu faterion penodol a godir mewn perthynas â bwyta'n iach a sut y caiff ei hybu yn ystod yr arolygiad.

Cyfarfod llywodraethwyr

2.10 Yn ystod yr arolygiad, bydd Estyn yn trefnu cwrdd â chynrychiolwyr o'r corff llywodraethu. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys cadeirydd y llywodraethwyr ac un llywodraethwr arall. Bydd Estyn yn gofyn i'r llywodraethwyr am eu gwaith, gan gynnwys i ba raddau y mae'r corff llywodraethu yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol a sut y caiff yr wybodaeth hon ei rhannu â rhieni. Bydd Estyn yn nodi unrhyw achosion amlwg o dorri'r rheoliadau.

Arsylwi ar wersi, mynd ar droeon dysgu, gwrando ar ddysgwyr, cyfarfod â'r staff, a chraffu ar ddogfennau.

2.11 Bydd Estyn yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch i werthuso pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn hybu bwyta ac yfed yn iach. Wrth ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, bydd Estyn yn ystyried i ba raddau:

- Y mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm, yn enwedig maes dysgu a phrofiad iechyd a lles, a gwaith allgyrsiol i helpu dysgwyr i ddeall effaith ymddygiadau a dewisiadau byw'n iach ar eu hiechyd corfforol a'u llesiant, yn nawr ac yn y dyfodol.
- Y mae'r dysgwyr yn meithrin yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i

wneud dewisiadau ffordd o fyw iach mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach.

- Y mae'r dysgwyr yn cyfrannu at hybu byw'n iach yng nghymuned yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r cyngor ysgol.
- Y mae'r dysgwyr yn datblygu arferion bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cynnwys arsylwi yn ystod yr egwyl ac amser cinio, a gofyn i'r disgyblion a oes dŵr yfed am ddim ar gael iddynt drwy'r dydd.
- Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd ystyrlon a gwerth chweil i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i'w galluogi i wneud dewisiadau ffordd o fyw addas mewn perthynas â bwyta'n iach.

<u>Adroddiad arolygu Estyn</u>

2.12 Ar ôl arolygiad craidd, bydd Estyn yn adrodd ar gryfderau a gwendidau'r ysgol ym mhob maes arolygu. Lle y bo briodol, bydd yn nodi agweddau ar waith yr ysgol sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, darpariaeth, a chanlyniadau'r disgyblion mewn perthynas â byw'n iach a llesiant. Yn yr adroddiad, bydd Estyn yn cyfeirio at ansawdd ac effeithiolrwydd y corff llywodraethu, gan gynnwys a oes gan yr ysgol drefniadau priodol mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach.

# Mae’r Mesur

**Hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion mewn ysgolion a gynhelir (Adran 1)**

<u>Yr hyn y mae'r Mesur yn ei ddweud</u>

3.1 ***‘Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gymryd camau i hybu disgyblion cofrestredig yr ysgol i fwyta ac yfed yn iach.’***

***‘Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau i hybu disgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir yn ei ardal i fwyta ac yfed yn iach.’***

***Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdod lleol/corff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau hyn sy'n rhoi cyngor ar y canlynol:***

- ***Yr hyn sy'n gyfystyr â bwyta ac yfed yn iach***
- ***Camau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach***
- ***Sut mae datblygu cynaliadwy yn gymwys mewn perthynas â hybu bwyta ac yfed yn iach***

| ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r corff llywodraethu?*** | ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r awdurdod lleol?*** |
|---|---|
| Mae cyfrifoldeb ar y corff llywodraethu i hybu bwyta ac yfed yn iach. | Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i hybu bwyta ac yn yfed yn iach ymhlith disgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn ei hardal. |
| ***Sut y gall y corff llywodraethu/ysgol wneud hyn?***<br>*Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r corff llywodraethu/ysgol eu cymryd. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth.* | ***Sut y gall yr awdurdod lleol wneud hyn?*** *Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r awdurdod lleol eu cymryd, gan gydnabod y gallai hyn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth.* |
| Casglu a chadarnhau tystiolaeth bod y bwyd a'r diodydd a ddarperir mewn ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) (ADD YEAR).<br><br>Gallai ysgolion gynnwys llywodraethwyr yr ysgol a'u gwahodd i ymuno â'r dysgwyr yn ystod amser cinio i gael pryd ysgol neu i ddathlu traddodiadau crefyddol a dathliadau diwylliannol drwy fwyd. | Dylai awdurdod lleol sy'n darparu bwyd a diod ystyried sut mae'n gwneud y canlynol:<br><br>1. cyfathrebu'n rheolaidd â'r ysgol i drafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella.<br><br>2. gweithio gyda'r ysgol i gynnig cyfle i ymgysylltu ynghylch bwyd ysgol, er mwyn deall safbwyntiau dysgwyr, |

| | |
|---|---|
| Cyfathrebu â'r dysgwyr er mwyn rhannu gwybodaeth, casglu barn ac adborth ar gamau gweithredu i hybu bwyta ac yfed yn iach, gan ystyried anghenion/dewisiadau penodol eich dysgwyr, yn cynnwys deietau arbennig, niwrowahaniaeth, dewisiadau diwylliannol a chyfyngiadau crefyddol. Treulio amser yn gwneud yn siŵr bod dyluniad y fwydlen yn adlewyrchu'r plant a'r cymunedau a wasanaethir.<br><br>Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr er mwyn rhannu gwybodaeth a chasglu barn ac adborth ar gamau gweithredu i hybu bwyta ac yfed yn iach. Gallai hyn hefyd gynnwys rhiant-hyrwyddwyr bwyd er mwyn rhannu arbenigedd ar ddeietau crefyddol.<br><br>Ystyried annog rhieni/gofalwyr a dysgwyr i ddod â byrbrydau, diodydd a phecynnau cinio iach gyda nhw. Lle y caiff problemau eu nodi, datblygu polisïau ar gyfer bwyd a diodydd y deuir y deuir â nhw i'r ysgol.<br><br>Cyfathrebu â'r gwasanaeth arlwyo mewn perthynas â hybu bwyta ac yfed yn iach.<br><br>Ystyried i ba raddau y caiff bwyta ac yfed yn iach ei hybu yn amgylchedd yr ysgol, i ba raddau y mae'r ffreutur yn estyniad i'r ystafell ddosbarth ac a yw'r profiad bwyta yn cyd-fynd ag ethos yr ysgol.<br><br>Sicrhau bod amseriad a hyd amser brecwast, yr egwyl bore ac amser cinio yn helpu i hybu arferion bwyta'n iach, cymdeithasu a gweithgareddau eraill. Cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu amseroedd sesiynau ysgol ac, felly, amseriad a hyd amser cinio.<br><br>Annog dysgwyr uwchradd i fwyta cinio cytbwys o ran maeth, yn hytrach na chael brecinio yn ystod yr egwyl bore neu fyrbryd cyflym yn lle pryd o fwyd.<br><br>Deall pa wybodaeth, hyfforddiant a chymorth a ddarperir i staff arlwyo mewn perthynas â sgiliau coginio'n iach a'r cyd-destun gyfer gwneud newidiadau i'r bwyd a'r diodydd a ddarperir.<br><br>Cefnogi goruchwylwyr canol dydd fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu | rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys plant a theuluoedd o gefndiroedd amrywiol.<br><br>3. darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth i staff arlwyo mewn perthynas â sgiliau coginio'n iach a'r cyd-destun gyfer gwneud newidiadau i'r bwyd a'r diodydd a ddarperir.<br><br>Pan fydd awdurdod lleol yn darparu bwyd a diod, mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) (20XX) gofynnol.<br><br>At hynny, gallai awdurdodau lleol ddarparu 'hyrwyddwr' i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion, a/neu weithio gyda Chydgysylltwyr Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Cymru, drwy gefnogi ysgolion i werthfawrogi'r canlynol:<br><br>• y galwadau ar wasanaethau arlwyo i ddarparu bwyd a diod iach, lleol, cynaliadwy, fforddiadwy, hygyrch a dymunol, gan weithredu fel busnes (mewn ysgolion uwchradd) â chyllidebau cyfyngedig ac amser cyfyngedig i wasanaethu dysgwyr;<br><br>• y dystiolaeth ddiweddaraf sy'n cysylltu maeth a pherfformiad addysgol;<br><br>• y dystiolaeth gynyddol o gostau salwch sy'n gysylltiedig â deiet nad yw'n iach i'r sector cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| hangen i gyfathrebu â disgyblion yn yr ystafell fwyta a'u cynorthwyo, yn enwedig babanod a dysgwyr ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys plant niwrowahanol.<br><br>Ystyried sut mae bwyta ac yfed yn iach yn rhan o gwricwlwm yr ysgol (gellid dirprwyo hyn i bwyllgor y cwricwlwm). Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle i Fwyd a Maeth gael eu hystyried fel rhan o faes dysgu a phrofiad (MDPh) iechyd a lles.<br><br>Ystyried sut mae'r ysgol yn defnyddio safonau, cynlluniau a hyfforddiant ehangach sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac yn gweithio tuag atynt.<br><br>Datblygu polisïau bwyta ac yfed yn iach, neu bolisïau cyfatebol, neu eu hadolygu'n rheolaidd. Dylai'r rhain hyrwyddo negeseuon cyson am fwyta'n iach a gallant gynnwys cyfeirio at ddysgwyr yn gadael yr ystafell fwyta â bwyd a diod, gadael safle'r ysgol i brynu bwyd a diod, bwyd a diod y deuir â nhw i'r ysgol, bwyd a diod a ddanfonir i ddysgwyr yn yr ysgol, gwerthwyr bwyd a diod symudol ger safle'r ysgol, cacennau pen-blwydd, amseriad a hyd amser cinio, archebu ymlaen llaw, trefniadau eistedd yn yr ystafell fwyta, rheoli ciwiau, goruchwylio, digwyddiadau cymdeithasol a digwyddiadau hamdden, digwyddiadau codi arian, gwobrau a deietau sydd wedi'u rhagnodi'n feddygol.<br><br>Monitro data ar faint o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol er mwyn monitro cynnydd a thueddiadau. Gallai hyn gynnwys dadwahanu'r dyddiad yn ôl nodweddion gwarchodedig er mwyn deall a oes angen gwneud rhagor o waith gyda chymunedau penodol i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol. | |

**Adroddiadau Llywodraethwyr (Adran 2)**

Yr hyn y mae'r Mesur yn ei ddweud

3.2 ***Mae Adran 2 o'r Mesur yn mewnosod y canlynol yn Neddf Addysg 2002:***

> ***'The governing body of a maintained school in Wales must include in a governors' report, information about the action taken to promote healthy eating and drinking by pupils of the school.'***

| ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r corff llywodraethu?*** | ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r awdurdod lleol?*** |
|---|---|
| Rhaid i adroddiad blynyddol llywodraethwyr yr ysgol ddarparu gwybodaeth am yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud i hybu bwyta ac yfed yn iach. | Dim gofyniad |
| ***Sut y gall y corff llywodraethu wneud hyn?***<br>*Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y gallai'r corff llywodraethu ddewis eu cymryd. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth* | ***Sut y gall yr awdurdod lleol wneud hyn?***<br>*Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau a allai gael eu cymryd. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth* |
| Dylai cyrff llywodraethu gynnwys cadarnhad bod y bwyd a'r diodydd a ddarperir yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) (20XX).<br><br>Gallai cyrff llywodraethu ddewis cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth ganlynol yn eu hadroddiad blynyddol:<br><br>• Camau a gymerwyd gan yr ysgol i hybu bwyta ac yfed yn iach.<br>• Cyfeiriadau at bolisïau bwyta ac yfed yn iach.<br>• Data ar nifer y plant sy'n cael prydau ysgol, gan gynnwys unrhyw batrymau yn ôl nodweddion gwarchodedig.<br>• Adborth/datganiadau o ohebiaeth â dysgwyr, rhieni a gofalwyr ynghylch pa mor dda y mae'r ysgol yn hybu bwyta'n iach. | Pan fydd awdurdod lleol yn darparu bwyd a diod, os bydd y corff llywodraethu yn gofyn iddo rannu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) (20XX), dylai wneud hynny fel modd i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn ei adroddiad blynyddol. |

**Swyddogaethau'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Estyn (Adran 3)**

Yr hyn y mae'r Mesur yn ei ddweud

3.3 ***Mae'r Mesur yn diwygio adran 20(1) o Ddeddf Addysg 2005 sy'n nodi'r materion y mae dyletswydd ar y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru roi gwybod i Weinidogion Cymru amdanynt. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd (h.y. Estyn) adrodd ar gamau a gymerwyd mewn ysgolion a gynhelir i hybu bwyta ac yfed yn iach.***

| **Beth mae hyn yn ei olygu i'r corff llywodraethu?** |
|---|
| Bydd yn ofynnol i'r corff llywodraethu ddarparu gwybodaeth i Estyn i'w galluogi i adrodd ar y trefniadau sydd ar waith yn yr ysgol i hybu bwyta ac yfed yn iach.<br><br>Awgrymir y dylai cyrff llywodraethu:<br><br>• ymgyfarwyddo â'r trefniadau sydd ar waith yn yr ysgol i hybu bwyta'n iach (gweler adran 1 o'r mesur);<br><br>• sicrhau bod eu hadroddiad blynyddol yn cynnwys manylion am y trefniadau sydd ar waith yn yr ysgol i hybu bwyta'n iach (gweler adran 2 o'r mesur);<br><br>• bod yn ymwybodol o'r fframwaith arolygu ysgolion cyfredol.<br><br>Wrth gynnal hunanwerthusiad mewn perthynas â gofal, cymorth ac arweiniad, dylai ysgolion fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio gwaith a wnaed mewn perthynas â bwyta'n iach mewn ysgolion ac i greu cysylltiadau â'r gwaith hwnnw. |

**Dŵr Yfed mewn ysgolion (Adran 5)**

Yr hyn y mae'r Mesur yn ei ddweud

3.4 ***Adran 5: 'Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed ar gael, yn rhad ac am ddim, ym mangre unrhyw ysgol a gynhelir.'***

| ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r corff llywodraethu?*** | ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r awdurdod lleol?*** |
|---|---|
| Nid yw'r corff llywodraethu yn uniongyrchol gyfrifol am sicrhau bod cyflenwad am ddim o ddŵr yfed ar gael, ond mae dyletswydd arno i hybu yfed yn iach (gweler Adran 1) a dylai gefnogi'r awdurdod lleol mewn gweithgareddau perthnasol. | Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau i sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed ar gael, am ddim, ar safle unrhyw ysgol a gynhelir. |
| ***Sut y gall y corff llywodraethu wneud hyn?*** *Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd.* | ***Sut y gall yr awdurdod lleol wneud hyn?*** *Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r awdurdod lleol eu cymryd, gan gydnabod y gallai hyn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth.* |
| Gwybod ble a sut mae dŵr yfed ar gael am ddim .<br><br>Ystyried y defnydd o oeryddion/ffynhonnau dŵr.<br><br>Hybu hydradu iach yn ystod y diwrnod ysgol a'r defnydd o boteli dŵr.<br><br>Lle nad oes dŵr ar gael o ffynhonnau neu oeryddion yn yr ardal fwyta, sicrhau bod dŵr yfed am ddim ar gael i'r dysgwyr drwy ddarparu jygiau dŵr a/neu gwpanau i'r dysgwr yn ystod amseroedd gwasanaeth. | Gweithio gyda grwpiau arweinwyr ysgolion a/neu arweinwyr dysgwyr er mwyn sicrhau bod dŵr yfed am ddim ar gael i'r dysgwyr.<br><br>Rhaid dilyn safonau rhagnodedig er mwyn sicrhau bod cyflenwad am ddim o ddŵr yfed ar gael ym mhob ysgol[6]. |

[6] Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 (legislation.gov.uk)

**Hybu prydau ysgol mewn ysgolion a gynhelir (Adran 6)**

<u>Yr hyn y mae'r Mesur yn ei ddweud</u>

3.5 ***Rhaid i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sy'n darparu prydau ysgol neu laeth o dan adran 512 o Ddeddf 1996—***

***(a) hybu defnyddio prydau a llaeth ysgol, a***

***(b) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i gael cinio ysgol a llaeth yn rhad ac am ddim o dan adran 512ZB o Ddeddf 1996 [10] yn eu cael.***

<u>**Mae'r ddyletswydd hon yn ymwneud â'r corff sy'n gyfrifol am ddarparu prydau ysgol a llaeth ysgol.**</u>

| ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r corff llywodraethu?*** | ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r awdurdod lleol?*** |
|---|---|
| Os bydd y corff llywodraethu yn darparu prydau ysgol a llaeth, bydd yn gyfrifol am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol neu laeth ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â chymhwystra yn manteisio ar y ddarpariaeth honno. | Os bydd yr awdurdod lleol yn darparu prydau ysgol a llaeth, bydd yn gyfrifol am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol neu laeth ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â chymhwystra yn manteisio ar y ddarpariaeth honno. |
| ***Sut y gall y corff llywodraethu/ysgol wneud hyn?*** *Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth.* | ***Sut y gall yr awdurdod lleol wneud hyn?*** *Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r awdurdod lleol eu cymryd, gan gydnabod y gallai hyn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth.* |
| Sicrhau bod gwybodaeth am brydau ysgol a llaeth yn hygyrch a'i bod yn cael ei rhannu.<br><br>Sicrhau bod y broses gwneud cais yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb a'i bod yn cael ei chyfleu'n glir.<br><br>Sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu am ddim er mwyn helpu gyda cheisiadau am Brydau Ysgol am Ddim a bod trefniadau cyfathrebu ar waith i roi manylion am sut i gael cymorth.<br><br>Sicrhau bod fformat bwydlenni a rhestrau prisiau yn hygyrch ac yn ddealladwy, a'u bod yn cael eu cyfleu'n glir i ddisgyblion a rhieni gan ystyried cydraddoldeb ac iaith. | Sicrhau bod gwybodaeth am brydau ysgol a llaeth yn hygyrch a'i bod yn cael ei rhannu.<br><br>Sicrhau bod y broses gwneud cais yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb a'i bod yn cael ei chyfleu'n glir.<br><br>Sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu am ddim er mwyn helpu gyda cheisiadau am Brydau Ysgol am Ddim a bod trefniadau cyfathrebu ar waith i roi manylion am sut i gael cymorth.<br><br>Sicrhau bod fformat bwydlenni a rhestrau prisiau yn hygyrch ac yn ddealladwy, a'u bod yn cael eu cyfleu'n glir i ddisgyblion a |

DRAFT CONFIDENTIAL

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod systemau archebu yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.<br><br>Casglu gwybodaeth berthnasol am nifer y disgyblion sy'n dewis cael prydau ysgol a llaeth, er mwyn deall i ba raddau y manteisir ar y ddarpariaeth ar draws nodweddion gwarchodedig.<br><br>Cyfathrebu â'r gwasanaeth arlwyo er mwyn deall ei farn ar sut i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion â phosibl yn manteisio ar y ddarpariaeth.<br><br>Cyfathrebu â disgyblion a rhieni/gofalwyr er mwyn deall beth fyddai'n eu hannog i fanteisio ar brydau ysgol a llaeth ysgol.<br><br>Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr i'w hannog i fanteisio ar brydau/llaeth ysgol. | rhieni gan ystyried cydraddoldeb ac iaith.<br><br>Sicrhau bod systemau archebu yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.<br><br>Cyfathrebu'n rheolaidd â'r ysgol er mwyn trafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella.<br><br>Gweithio gyda'r ysgol er mwyn rhoi cyfle i ymgysylltu ynghylch bwyd ysgol, er mwyn deall safbwyntiau dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol.<br><br>Gweithio gyda'r ysgol i roi cyfle i ddysgwyr flasu opsiynau bwyd a newidiadau arfaethedig, gan sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r plant a'r cymunedau a wasanaethir.<br><br>Casglu gwybodaeth berthnasol am nifer y disgyblion sy'n dewis cael prydau ysgol a llaeth, er mwyn deall i ba raddau y manteisir ar y ddarpariaeth ar draws nodweddion gwarchodedig.<br><br>Cyfathrebu â'r gwasanaeth arlwyo er mwyn deall ei farn ar sut i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion â phosibl yn manteisio ar y ddarpariaeth.<br><br>Cyfathrebu â disgyblion a rhieni/gofalwyr er mwyn deall beth fyddai'n eu hannog i fanteisio ar brydau ysgol a llaeth ysgol.<br><br>Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr i'w hannog i fanteisio ar brydau/llaeth ysgol. |

*Gweler Atodiad 1 am weithgareddau enghreifftiol y gallai awdurdod lleol a/neu gorff llywodraethu eu hannog neu eu cefnogi i annog dysgwyr a rhieni i fanteisio ar brydau ysgol (nid ydynt yn nhrefn blaenoriaeth)*

DRAFT CONFIDENTIAL

**Diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol neu laeth am ddim (adran 7)**

<u>Yr hyn y mae'r Mesur yn ei ddweud</u>

3.6 **Mae'r Mesur yn mewnosod adran 512A newydd yn Neddf 1996**

***'512ZCProtection of identity of pupils receiving free school lunches or milk***

***(1) This section applies when a school lunch or milk is provided for a pupil in Wales free of charge by a local authority under section 512ZB or by the governing body of a maintained school by virtue of section 512A.***

***(2) A local authority or governing body in Wales must take reasonable steps to ensure that the pupil cannot be identified as a pupil who receives a school lunch or milk free of charge by any person other than an authorised person.***

***(3) A local authority or governing body in Wales must take reasonable steps to ensure that none of the persons mentioned in subsection (4) discloses to any person other than an authorised person the fact that the pupil receives school lunches or milk free of charge.***

***(4) The persons referred to in subsection (3) are—***

***(a)a teacher in the school,***

***(b) any person (other than a teacher) who is—***

***(i) employed (whether by the local authority or by another person) in the school, or***

***(ii) working there on an unpaid basis, and***

***(c) any other person employed by the local authority or governing body.***

***(5)In subsections (2) and (3), "authorised person" means—***

***(a) a parent of the pupil, and***

***(b) a person mentioned in subsection (4) who is authorised by the local authority or governing body to have access to information about a pupil's entitlement to receive school lunches free of charge.***

***(6) When deciding what steps to take in order to comply with their duties under subsections (2) and (3) a local authority or governing body in Wales must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers under this section.***

DRAFFT/CYMERIAD CYFRINACHOL

| ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r corff llywodraethu?*** | ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r awdurdod lleol?*** |
|---|---|

Mae'r adran hon o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu gymryd camau rhesymol i ddiogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael prydau ysgol neu laeth am ddim sy'n gysylltiedig â chymhwystra.

DRAFFT CYFRINACHOL

<table>
<tr><td colspan="2">Yn benodol, dylai awdurdod lleol neu gorff llywodraethu fodloni ei hun na fydd unrhyw berson sy'n gweithio yn yr ysgol am dâl neu'n ddi-dâl, neu unrhyw berson arall a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu, yn gwneud datgeliadau ynghylch disgyblion yn cael ciniawau neu laeth am ddim, i unrhyw un heblaw ‘person awdurdodedig, er mwyn osgoi stigma tlodi.</td></tr>
<tr><td>Sut y gall y corff llywodraethu wneud hyn?<br>Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd yn ei rôl. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth.</td><td>Sut y gall yr awdurdod lleol wneud hyn?<br>Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y dylid eu cymryd. Nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o weithgarwch ac nid yw yn nhrefn blaenoriaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai ysgolion sicrhau:<br><br>• Bod polisïau priodol ar waith, e.e. diogelu<br><br>• Mai dim ond personau awdurdodedig all adnabod dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â chymhwystra e.e. sicrhau nad oes cyfeiriad ffisegol neu lafar at statws prydau ysgol am ddim, nad dim ond i ddisgyblion cymwys y darperir ciniawau ysgol, ac nad oes mynediad annheg i lwfansau ciniawau ysgol am ddim yn ystod yr egwyl bore a/neu amser cinio o gymharu â disgyblion sy'n talu.<br><br>• Os defnyddir systemau nad ydynt yn derbyn arian parod mewn ffreuturau, sut mae hyn yn helpu i ddiogelu manylion adnabod disgyblion.<br><br>• Y caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu am y ffordd y mae prydau ysgol am ddim yn gweithio yn ffreutur yr ysgol.<br><br>• Y cynigir yr un dewis o brydau bwyd i bob dysgwr.<br><br>• Y darperir hyfforddiant ar ddiogelu data<br><br>Gall awdurdodau lleol fod am ddeall pa gamau y mae'r ysgol wedi eu cymryd a dylent ddarparu eu hyfforddiant eu hunain ar ddiogelu data.</td></tr>
</table>

DRAFFT CYFRINACHOL

**Atodiad 1 – Gweithgareddau enghreifftiol y gallai awdurdod lleol a/neu gorff llywodraethu eu hannog neu eu cefnogi i annog dysgwyr a rhieni i fanteisio ar brydau ysgol (nid ydynt yn nhrefn blaenoriaeth)**

- ✓ Ystyried yr ystafell fwyta/ardal y ffreutur er mwyn gwneud yr amgylchedd yn fwy deniadol i bob dysgwr drwy ddarparu seddi cyfforddus, byrddau a chadeiriau glân, a chynnwys dysgwyr yn y gwaith o addurno ystafelloedd bwyta, gan ystyried plant niwrowahanol neu anabl.
- ✓ Lleihau ciwiau a sicrhau bod arferion rheolaidd sy'n gysylltiedig â chiwio yn achosi llai o straen drwy amrywio amseroedd gweini bwyd ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion, cylchdroi amseroedd gweini bwyd, goruchwylio ciwiau, gweithredu system archebu ymlaen llaw.
- ✓ Gwneud y defnydd gorau o leoedd bwyta bach drwy drefnu seddi mewn ffordd ystyriol a sicrhau bod digon o fwlch rhyngddynt.
- ✓ Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr flasu cynhyrchion a ryseitiau newydd.
- ✓ Arddangos bwydlenni, rhestrau prisiau ac arwyddion hyrwyddo yn yr ystafell fwyta.
- ✓ Rhoi gwybodaeth i ysgolion, dysgwyr, rhieni a gofalwyr am ansawdd y bwyd sydd ar gael a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau.
- ✓ Lleihau sŵn drwy gyflwyno carpedi a llenni, byrddau amsugno sain a chwarae cerddoriaeth.
- ✓ Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o amser i eistedd, bwyta a chymdeithasu amser cinio, amrywio amseroedd gweini bwyd ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion, gweithredu system archebu ymlaen llaw, cyflwyno sawl ardal gweini bwyd, a darparu ardaloedd bwyta awyr agored.
- ✓ Gosod arwyddion hygyrch sy'n dangos bwydlenni a phrisiau mewn mannau amlwg, e.e. mewn ardaloedd ciwio, mewn trefnyddion ysgol ac ar-lein.
- ✓ Sicrhau bod staff addysgu yn gweithredu fel modelau rôl sy'n goruchwylio dysgwyr yn ogystal ag eistedd a bwyta bwyd ysgol yn yr ystafell fwyta/ardal y ffreutur.
- ✓ Caniatáu i ddysgwyr cynradd eistedd gyda'u cyfoedion p'un a ydynt yn bwyta prydau ysgol neu becynnau cinio.
- ✓ Amrywio'r dewis o fwyd sydd ar gael yn ystod y cyfnod gweini er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o fwydydd yn dal i fod ar gael i'r dysgwyr hynny sy'n dod i gael cinio yn ddiweddarach.
- ✓ Cynnig cyfleoedd blasu.
- ✓ Manteisio ar y cyfle i ystyried bwydlen yr ysgol a dysgu amdani fel rhan o'r cwricwlwm.
- ✓ Rhoi'r cyfle i ddysgu am fwyd o ddiwylliannau a chrefyddau gwahanol.



DRAFFT CYFRINACHOL

- ✓ Goruchwylio a defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad amser brecwast, yn ystod yr egwyl bore ac amser cinio.
- ✓ Caniatáu i ddysgwyr gael eu lwfans cinio ysgol am ddim yn ystod yr egwyl bore, os bydd yn agos at ganol dydd a bod eitemau cinio cytbwys o ran maeth ar gael ar yr adeg hon.
- ✓ Defnyddio pwerau codi tâl hyblyg i gynnig prisiau gostyngol (e.e. ar gyfer sawl dysgwr o'r un aelwyd sy'n cael prydau ysgol, ar gyfer talu ymlaen llaw am dymhorau cyfan).

DRAFFT CYFRINACHOL